# CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

**COFNODION CYFARFOD LLAWN A GYNHALIWYD NOS FAWRTH, 8fed EBRILL 2025
AM 7.00 O'R GLOCH YN Y GANOLFAN TALYSARN.**

1. **Presennol** - Dafydd Thomas (Cad) - Nebo, Justin Davies, Judith Humphreys, Barry Bracegirdle, Ceri Owen - Penygroes, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, Tesni Glyn - Llanllyfni, Siân Dafydd, Gareth Jones - Talysarn. Cyng. Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** – Erfyl Williams - Penygroes, Harry Owen, Nigel Williams – Talysarn, Gerallt Hughes - Nantlle

2. **Datgan buddiant** - pwynt 10 Siân Dafydd - Ceisiadau cynllunio. Pwynt 14 Justin Davies a Judith Humphreys - diweddariad tir Cwtin. Pwynt 14 Ceri Owen - Cais gan ADRA am ddefnydd o dir Cwtin

3. **Gwadd - Tomi Arfon Roberts - cyflwyniad ar ei syniad ar gyfer blwch ffôn Tanrallt** - croesawyd Tomi a'i fam Sioned i'r cyfarfod. Roedd Tomi wedi paratoi sioe sleidiau i ddangos i'r cyngor gyda'i syniad ar gyfer y blwch ffôn. Gofynnwyd a oedd wedi meddwl cofrestru'r blwch gyda CADW - am edrych fewn i hyn. Holwyd beth oedd cyflwr y ffenestri a dywedodd bod rhai paneli ar goll felly buasai yn rhaid newid y cwbl i wydr cryfach. Gofynwyd i Tomi e-bostio'r cyflwyniad i'r clerc gael ei basio ymlaen i'r tir feddiannwr er mwyn cael ei farn a'i ganiatâd i barhau gyda'r mabwysiadu. Diolchwyd a llongyfarchwyd Tomi ar y cyflwyniad gwych yr oedd wedi ei baratoi. Bu i Tomi a Sioned adael y cyfarfod.

4. **Cofnodion cyfarfod 11 Mawrth 2025** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. **Materion yn codi o'r cofnodion** – nid oedd dim yn codi o'r cofnodion.

6. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - roedd pawb wedi derbyn adroddiad gan Cyng. Peter Thomas. Aethpwyd drwy'r adroddiad a rhoi cyfle i bawb godi unrhyw sylwadau. Diolchwyd i Cyng. Peter Thomas am ei adroddiad a'i waith.

7. **Taflen ariannol a chyllid** - **Yswiriant 2025/26 -** yn dilyn adolygu'r polisi a chael pris newydd trafodwyd a phenderfynwyd parhau gyda'r polisi hwn gan Zurich. **Golau Nadolig** - roedd prisiau wedi eu derbyn gan gwmnïau am olau newydd i Benygroes a Llanllyfni a hefyd prisiau wedi ei derbyn am eu storio a'r gosod a thynnu lawr. Trafodwyd y prisiau a chynigwyd i fynd gyda phris R J Electrics i storio, gosod a thynnu ac yna prynu'r golau gan gwmni LITE. Eiliwyd y cynnig ac aethpwyd gyda hyn. **Cais Ysgol Bro Lleu** - roedd cais wedi ei dderbyn gan Ysgol Bro Lleu am gymorth ariannol i fynd i Eisteddfod yr Urdd gan eu bod wedi mynd trwodd gyda chystadleuaeth. Trafodwyd, cynigwyd ac eiliwyd i gyfrannu £500 iddynt ar gyfer hyn.

8. **Materion Pentrefi** - **Penygroes** - yr arwydd henoed yn Nhrem Yr Wyddfa dal heb gael ei drwsio. Mainc ar waelod y grisiau wrth y cylchdro wedi pydru ac angen ei newid/atgyweirio. Roedd rhai o'r cynghorwyr wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â'r Hwb Iechyd ond yn adrodd eu bod yn siomedig iawn gyda'r cyfarfod. Cynigwyd y dylid cysylltu gyda grŵp Cynefin i holi am y safle ar golwg sydd yno erbyn hyn. Toiledau cyhoeddus - cynigwyd y dylid gofyn i Gyngor Gwynedd ail edrych ar agor y safle ym Mhenygroes gan fod adroddiadau fod pobl wedi bod yn defnyddio'r maes parcio fel toiled. Roedd teimladau cymysg o fewn y cyngor cymuned am ail-agor y toiledau. Buasai yna lawer o gostau ar y cyngor cymuned i'w rhedeg a buasai rhaid meddwl am fandaliaeth. Mae'r safle bws yn cael ei fandaleiddio yn rheolaidd buasai agor y toiled yn ei wneud yn darged arall iddynt. **Talysarn** - twmpath o bridd wedi ei adael ger y safle bws wrth y ganolfan ar ôl iddynt dynnu y planter blodau oddi yno. Y clerc i gysylltu gyda'r sefydliadau gwahanol ynglŷn â'r uchod.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag archwilio'r cerrig beddi cafwyd pris gan un swyddog sydd yn gwneud y gwaith. Cynigwyd, eiliwyd a phenderfynwyd parhau gyda hyn gan fod gwneud y gwaith yma yn bwysig. Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â thyrchod daear ym mynwent Macpela - angen cysylltu â chwmni difa pla i weld beth ellir ei wneud am hyn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - ______________________________ Dyddiad - ___________

10. **<u>Ceisiadau Cynllunio</u>** - bu i Siân Dafydd a Judith Humphreys adael y cyfarfod am y drafodaeth hon. Nid oedd DIM GWRTHWYNEBIAD i'r isod.

- *C25/0225/22/LL – Ysgol Bro Lleu – Adeiladu a darparu adeilad modiwlaidd newydd ar gyfer meithrinfa ysgol sy'n cynnwys dau ddosbarth, ceginau, toiledau a mannau chwarae allanol.*
- *C25/0172/22/DT – Brithdir Ganol, Nebo – tyrbin gwynt echel fertigol arfaethedig i'r simnai bresennol.*

11. **<u>Gohebiaeth</u>** - roedd pawb wedi derbyn copïau o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y mis. Nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth.

12. **<u>Materion ariannol</u>** - cytunwyd i dalu'r isod.

- *Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd =* ***£25.00***
- *Cyngor Gwynedd – tynnu golau Nadolig =* ***£668.26***

13. **<u>Unrhyw fater arall</u>** - adroddwyd y bydd y cyfarfod blynyddol yn cymryd lle cyn y cyfarfod llawn nesaf sef ar 13eg Mai. Adroddwyd hefyd fod y rhan fwyaf o'r cynghorwyr a'r clerc wedi mynychu'r hyfforddiant côd ymddygiad. Roedd rhai wedi methu bod yn bresennol, ond bydd cyfle iddynt wneud yr hyfforddiant tro nesaf y bydd ymlaen. Trafodwyd y mater o fandaliaeth i'r safle bws a gofynnwyd i'r clerc drefnu dyddiad a fyddai yn gyfleus i bawb gan gynnwys sefydliadau fel ADRA, Cynefin, Yr Orsaf ayyb i gael cyfarfod i drafod cael system teledu cylch cyfyng ar y cyd.

14. **<u>Diweddariad Tir Cwtin</u>** - bu i Judith Humphreys ac Justin Davies adael y cyfarfod am y drafodaeth hon.

**Is-bwyllgor 2il Ebrill 2025 -** roedd pawb wedi derbyn copi o gofnodion yr is-bwyllgor hwn a oedd wedi ei gynnal i drafod prydles Cwtin. Yn dilyn trafod Cynigwyd ac eiliwyd i dderbyn beth oedd wedi ei gynnig o'r is-bwyllgor a gofynwd i'r clerc gysylltu â'r cyfreithwyr i wneud y newidiadau oedd angen.

**Cais gan ADRA i ddefnyddio tir Cwtin -** roedd cais wedi dod gan ADRA i gael caniatâd i ddefnyddio tir Cwtin fel lleoliad i wneud eitemau ymarferol yn ystod cwrs cynnal a chadw Academi Adra. Roedd pawb wedi derbyn copi o'r cais ac ar ôl derbyn cadarnhad bod gan ADRA'r yswiriant pwrpasol ac y byddai rheolau iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn - cynigwyd ac eiliwyd i adael iddynt gael defnydd o'r tir. Gofynwyd i'r clerc gysylltu â Cwtin CBC i adael iddynt wybod am hyn.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 13eg Mai 2025 am 7.00 o'r gloch yng Nghanolfan Talysarn.

Cafwyd y cofnodion yn rhai cywir

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor - _______________________________ Dyddiad - ___________